**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Cyd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 14 Chwefror 2022 am 1.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C A Holley | Y V Jardine | S M Jones |
| E T Kirchner | W G Lewis | G J Tanner |
| D W W Thomas | | G J Tanner |

**Aelodau Cyfetholedig(wyr)**
T Beddow

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Mark Child | Aelod y Cabinet - Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Iechyd Cymunedol |
| Elliott King | Aelod y Cabinet - Gwasanaethau Plant |
| Alyson Pugh | Aelod y Cabinet - Cefnogi Cymunedau |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| David Howes | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Jane Whitmore | Comisiynydd Strategol Arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): A M Day, M Durke a/ac H M Morris
Hefyd yn bresennol: Julie Davies, Helen StJohn

---

## 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

## 2 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

## 3 Cwestiynau Gan y Cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 4 Cynigion Drafft Cyllideb

Roedd y Cynghorwyr Mark Child, Elliott King ac Alison Pugh ynghyd â swyddogion perthnasol yn bresennol ac aethpwyd drwy'r cynigion cyllideb arfaethedig mewn perthynas â’r Gwasanaethau i Oedolion, y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Thlodi a’i Atal, gan dynnu sylw at y prif faterion ac ateb cwestiynau.

Cytunodd y panel â'r farn a'r argymhellion canlynol am y cynigion cyllidebol mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yr hoffai eu cyflwyno i'r Cabinet:

- Roedd y panel yn falch iawn o weld sefyllfa'r gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol eleni, oherwydd y cynnydd ac oherwydd yr arbedion, sy'n edrych fel pe baent i gyd yn mynd i fod yn gytundebol. Yr unig bryder bach i'r panel yw pa mor bell y bydd yr arbedion cytundebol hyn yn mynd.
- Mae'r panel yn deall bod Papurau'r Cabinet yn dangos cynnydd o £8.5m yng Nghyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2022/23 ond y gyllideb arfaethedig wirioneddol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2022/23, yn nhaflen grynodeb y Gyllideb Refeniw, yw £16m. Mae'r panel yn deall bod yr £8.5m ar gyfer pwysau ychwanegol a bod y gwahaniaeth rhwng hyn a'r £16m ar gyfer twf parhaus o fewn y gwasanaeth. Mae'r panel yn teimlo bod hwn yn gyfle gwych i fuddsoddi i wella gwasanaethau.
- Mae'r panel yn bwriadu edrych yn fanylach ar drawsnewid gwasanaethau mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Mae angen am wasanaethau sy'n cael eu rhedeg yn economaidd ac yn effeithlon, ac mae angen i'r panel sicrhau nad ydym yn colli golwg ar hyn.
- Mae'r panel yn croesawu'r cyfathrebu gwell rhwng Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phartneriaid dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n gobeithio y bydd y berthynas hon yn parhau i dyfu.

Bydd cynullydd y Panel Gwella Gwasanaethau a Chyllid yn bresennol yn y Cabinet ar 17 Chwefror i roi barn gyfunol y paneli perfformiad craffu ac ysgrifennu llythyr at yr aelod Cabinet.

## 5 Y diweddaraf am Reolaeth Pandemig COVID-19 and a'r Cynllun Staffio Brys

Daeth Dave Howes, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i’r cyfarfod i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol o ran pandemig COVID-19 a materion staffio.

Pwyntiau Trafod:

- Hysbyswyd y panel fod y cynllun wrth gefn a roddwyd ar waith yn ystod ton omicron o'r radd flaenaf. Mae heintiau wedi sefydlogi ar lefelau uchel o drosglwyddo cymunedol a disgwylir i hyn bara tan y Pasg. Bydd pwysau mawr yn parhau i fod tan hynny ond mae cynlluniau wrth gefn sydd ar waith yn golygu bod rhywfaint o gyfle i ailganolbwyntio ar ôl-groniad. Rydym yn gobeithio ehangu gwasanaethau dydd a chynigion seibiant yn ystod y misoedd nesaf ac yna o'r Pasg byddwn yn canolbwyntio ar yr agenda trawsnewid.

- Pwysau gwirioneddol yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Mae goblygiadau cael nifer o weithwyr cymdeithasol nad ydynt ar y lefelau angenrheidiol yn golygu bod angen recriwtio staff â chymwysterau gwahanol, y byddant yn gallu canolbwyntio ar feysydd sy'n caniatáu i weithwyr cymdeithasol cymwysedig ganolbwyntio ar y meysydd risg uchaf a'r unigolion sydd fwyaf agored i niwed.
- Holodd y panel am effaith COVID-19 hir ar gynlluniau'r Adran. Dywedwyd y bydd angen ailfodelu elfennau o'r cynnig Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac mae'r Gwasanaeth Iechyd wedi sefydlu gwasanaeth COVID-19 hir arbenigol yn y rhanbarth, ond dim ond tan ddiwedd y flwyddyn ariannol y caiff cyllid ei sicrhau ar hyn o bryd. O ran y gweithlu, nid yw'n sylweddol iawn o ran niferoedd, ond ffactor arwyddocaol yw'r absenoldebau tymor hir gan fod nifer ohonynt yn gysylltiedig â COVID-19 hir.
- Gofynnodd y panel i Aelodau'r Cabinet a swyddogion fynegi faint y mae'n gwerthfawrogi gwaith ac ymdrech y rheolwyr a'r staff o fewn yr Adran.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.50 pm